4.113

CAN O GLOD I

# Syr W. T. LEWIS, Barwnig, K.C.V.O., Mardy, Aberdar

A'R

# Gwir Anrhydeddus D. LLOYD GEORGE, Ysw., A.S., Caernarfon,

## CANGHELLYDD TRYSORLYS PRYDAIN FAWR,

Ar eu cyfarfyddiad, trwy wahoddiad cynnes y boneddwr uchod a'u mynediad ar neges neilltuol

## I Bwll Glo Abercynon, y dyfnaf yng Nghymru, ger Pontypridd,

## YM MIS AWST, 1909.

*Ton—"Rhyfelgyrch Gwyr Harlech."*

Hanes Cymru gwlad y bryniau
Sydd yn llawn o ryfeddodau,
I ddyddori twym galonau
Meibion Cymru Fydd;
Daeth Canghellydd y Trysorlys,
O Gaernarfon yn ddibetrus,
At y gwir Syr William Lewis,
Coron Cymru Fydd.
Lawr i'r lofa'r aethant,
Gweithwyr a synasant,
Gwel'd y ddau foneddwr gwych
Yn chwyddo eu gogoniant;
Wrth fyn'd lawr i'r globwll pygddu
Aethant hwy yn uwch i fyny,
Yn ddiau yng ngolwg Cymru—
Anwyl Gymru Fydd.

I roi i ni gyngor medrus,
I egluro pynciau dyrus,
Goreu un Syr William Lewis,
Arwr Cymru Fydd;
Enwog ydyw ei wasanaeth
Ymhob rhan o'r Dywysogaeth,
Rhoddir iddo glod yn helaeth,
Noddwr Cymru Fydd.

Pan aeth y Canghellydd
Lawr at y glô-weithydd,
Dewis wnaeth Syr William wiw
I'w gamrau yn Arweinydd;
Pwy all beidio canu clodydd
Y ddau enwog hyd y meusydd?
Tra bo môr a thra bo mynydd
Bloeddiwn "Cymru Fydd."

Dan y ddaear mewn distawrwydd,
Teimlent bryder dwys a sobrwydd,
Gwel'd y glowyr mewn enbydrwydd,
Dewrion Cymru Fydd;
Ar y pryd yn y Senedd-dŷ,
Wyth awr i holl lowyr Cymru
Oedd y testyn! cawd goleuni
Gan Blant Cymru Fydd.
Cafwyd gwawl i'r Senedd,
Taniwyd mewn brwdfrydedd,
Torrodd gwawr ar Gymru'n awr,
A erys yn orfoledd;
Diolch wnawn i'r gwiw Ganghellydd
A Syr William, wych athronydd,
Yn uwch, uwch, yr elo clodydd,
Arwyr Cymru Fydd.

Treherbert, Chwefror 21ain, 1910.

JOHN DUNCAN,
National Telephone Exchange.

D. Watkin Jones, Gwasg Gwalia, Treherbert.

X205 221431

P. 5837